Ymweliad â'r Caffi Trwsio



Dyma i chi sefydliad sy'n cyfrannu'n gyson at y Bedol, felly rhaid oedd mynd draw i gael sbec. A gweld os oedd posib gwneud rwbath efo set *gyfan* o gyllyll cegin ar yr un pryd, i gyd â'r carn wedi torri.

Dyma i chi ddwy o gwsmeriaid bodlon y bore hwnnw, - y ddwy fel mae'n digwydd bod yn gymdogion ym Mhwllglas.

Enid Roberts i ddechrau, wedi dod ag injan wnïo i mewn. Hon oedd ei hunig beiriant, ac roedd hi'n methu'n lan a'i chael i weithio. Mair, o Lanfair DC, oedd yr arbenigwr. Hi ydi Trysorydd y Caffi, ac mae'n gwneud profion PAT a chael golwg ar beiriannau fel un Enid hefyd.

Be allai fod o'i le? Y tensiwn, neu gallasai rhywbeth fod ar goll, oedd yn broblem arall. 'Am drio rhoi chydig o wynt ynddo fo,' meddai. Ac wedyn gwneud pwyth llinell. Llwyddiant, a chwsmer hapus.

Hobi, nid gwaith ydi hyn i Mair, ond manteisiodd ar y cyfle i ddeud helo wrth ei Nain, sy'n ddarllenwr brwd o'r Bedol. Felly, Nain Bryn Melyn, cyfarchion gan Mair a ni i gyd!

Clustdlysau oedd gan Julie Brixey felly joban arall i Andrew Coomber o Ysgeifiog. Dyma'r gŵr wnaeth Goron Eisteddfod Dinbych 2013, ac mae i'w weld yn aml yn y Bedol.

Beth oedd angen ei wneud tro 'ma? Y glöyn byw ar un o'r tlysau 'wedi hedfan' yn ôl pob tebyg. Roedd Andrew wedi gosod be oedd o'n alw'n 'cold joint', gan y byddai gwres wedi gwneud drwg i'r haenen o aur arno. Oedd o'n gorfod mynd a gwaith adref i'w wneud? Mae 65% yn cael ei wneud yn ystod sesiwn y Caffi, medda fo.

Ches i ddim lwc efo'r cyllyll, yn anffodus, ond cofiwch bod y Caffi Trwsio'n cyfarfod bore Sadwrn cyntaf o bob mis yng Nghanolfan Naylor Leyland, Rhuthun' ar y gwaelod.

BEJ



GRAIG MOTORS
FFORDD GRAIG, DINBYCH
GORSAF M.O.T.
3, 4, 5 a 7
01745 815606